# Y CYNGOR, 16/10/08

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Evie Morgan Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, S W Churchman, Anwen Davies, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Jean Forsyth, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllian, Christopher Hughes, Dafydd Ll Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles W Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, J R Jones, John Wynn Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Dafydd W Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Strategol Datblygu), Dafydd Lewis (Cyfarwyddwr Strategol Gofal), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd), Geraint George (Pennaeth Polisi a Pherfformiad), Gwen Carrington (Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol), Ffrancon Williams (Pennaeth Prosiect Pleidlais Stoc Tai), Gareth Wyn Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Polisi a Gweithredu), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Seimon Williams (Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Eraill yn bresennol:** Natalie Cooper, Prif Arolygydd Cynorthwyol Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Sue Roberts, Arweinydd y Tîm Adolygiad ar y Cyd Pete Graham o Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Val Connors a Huw Lloyd Jones o Swyddfa Archwilio Cymru.

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Elwyn Edwards, Simon Glyn, K Greenly-Jones, Gwen Griffith, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, John Gwilym Jones, John Wyn Meredith, Peter Read, Trevor Roberts, W Gareth Roberts a Guto Rhys Tomos

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd John Wynn Jones

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2008 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(a) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn arweiniol gan y Swyddog Monitro ynglŷn â dau fater oedd gerbron y Cyngor, sef Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir a Phrosiect Pleidlais Stoc Tai.

**Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir**

Adroddwyd y dylai llywodraethwyr sy'n cynrychioli'r Cyngor ar gyrff llywodraethu ysgolion Croesor, Rhydyclafdy neu Lawrybetws ddatgan y buddiant. Mae ganddynt hawl, dan eithriad yn y Cod Ymddygiad, i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

Dylai unrhyw un sydd â chysylltiad arall gydag ysgolion Rhydyclafdy, Croesor neu Lawrybetws ddatgan buddiant dan y cod, a gadael y Siambr yn ystod y drafodaeth os oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

**Y Prosiect Pleidlais Stoc Tai**

**(i) Datgan Buddiant**

Adroddwyd y dylai aelodau sydd wedi eu henwebu gan y Cyngor i'r Bwrdd Cysgodol ddatgan y buddiant. Mae ganddynt hawl, dan yr eithriad yn y Cod Ymddygiad, i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio.

Dylai unrhyw aelod sy'n denant i'r Cyngor ddatgan buddiant, ond bydd ganddynt hawl dan yr eithriad yn y Cod Ymddygiad i gymryd rhan lawn yn y drafodaeth a phleidleisio (ar yr amod nad oes ôl-ddyledion rhent o ragor na deufis).

**(ii) Datgan barn gyhoeddus**

Adroddwyd bod nifer o aelodau wedi holi ynglŷn â'u sefyllfa mewn perthynas â thrafod y bleidlais stoc tai gyda thenantiaid ac etholwyr.

Eglurodd y Swyddog Monitro bod y Cyngor wedi penderfynu cynnal pleidlais ffurfiol ymysg tenantiaid ar ddyfodol y stoc tai, a bod y ddogfen gerbron, i'r Cyngor benderfynu ar ei gynnwys. Roedd y ddogfen yn cynrychioli safbwynt swyddogol y Cyngor ynglŷn â'r cynnig, a'r ffordd orau i gyrraedd at Safon Ansawdd Tai Cymru. Fel aelod o'r Cyngor, gyda chyfrifoldeb torfol dros ei benderfyniadau, eglurwyd bod disgwyl i bob cynghorydd gyfleu ac egluro safbwynt swyddogol y Cyngor wrth siarad hefo tenantiaid ac etholwyr.

Ymhellach, nodwyd ei bod yn bosibl bod rhai aelodau wedi ffurfio barn bersonol gychwynnol ar y bleidlais (rhagdueddiad). Beth bynnag fo'r farn honno, atgoffwyd yr aelodau o'r angen, wrth drafod gyda thenantiaid ac etholwyr, i gadw meddwl agored ar y mater tan y daw gerbron y Cyngor am benderfyniad terfynol, er mwyn peidio rhagbenderfynu'r mater. Serch hynny, eglurodd ei bod yn dderbyniol i bawb gymryd rhan lawn yn y drafodaeth gerbron y Cyngor gan fynegi barn gychwynnol os dymunant.

(b) Datganodd y Cynghorydd Dylan Edwards fuddiant personol yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir, hefyd yn yr eitem oedd yn adrodd ar rybudd o gynnig blaenorol ynglŷn â darpariaeth addysg arbennig yn y sir, oherwydd bod ei wraig yn athrawes Addysg Arbennig yn Ysgol Llawrybetws.

Datganodd Y Cynghorydd Dafydd Lloyd Hughes fuddiant personol yn yr eitem yn ymwneud â threfniadau craffu'r Adolygiad ar y Cyd oherwydd ei fod yn nyrs cymunedol - anableddau dysgu

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau hynny.

(c) Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir.

- Y Cynghorwyr Ann Lloyd Jones, Brian Jones, Dewi Lewis a John Wyn Williams yn yr eitem Dogfen Gynnig Ffurfiol i Denantiaid - Prosiect Pleidlais Stoc Tai, oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd Cysgodol Tai;

- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn yr eitemau Dogfen Gynnig Ffurfiol i Denantiaid - Prosiect Pleidlais Stoc Tai oherwydd ei fod yn denant i'r Cyngor, a hefyd yn yr eitem Adolygiad ar y Cyd, oherwydd bod ei wraig yn anabl ac yn derbyn gofal gan y Cyngor;

- Y Cynghorydd J R Jones mewn perthynas â'r cwestiwn ynglŷn ag eiddo gwag, oherwydd ei fod yn berchen ar eiddo sy'n wag, hefyd yn yr eitem Dogfen Gynnig Ffurfiol i Denantiaid - Prosiect Pleidlais Stoc Tai oherwydd ei fod yn rhentu garej gan y Cyngor.

- Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths a Charles Wyn Jones yn y Rhybudd o Gynnig yn galw am gyfarfod gyda'r Heddlu, oherwydd eu bod yn cynrychioli'r Cyngor ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru

Roedd yr aelodau o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu. Ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd rhan lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

## 4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cyfeiriwyd at farwolaeth ddiweddar y cyn Cynghorydd Owen Edwards, a fu'n aelod gweithgar o Gyngor Dosbarth Meirionnydd, Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Gwynedd am nifer o flynyddoedd. Mynegwyd cydymdeimlad â'r teulu yn eu colled, ynghyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

Anfonwyd cofion at y Cynghorydd Sylvia Humphreys oedd yn absennol oherwydd ei bod yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd, a dymunwyd adferiad iechyd buan iddi.

Llongyfarchwyd Hilma Lloyd Edwards o Bontnewydd, cyn cyfieithydd gyda'r Cyngor, ar ennill y Gadair yn Eisteddfod Caerdydd a chyfeiriodd y Cadeirydd at ei falchder o fod yn bresennol yn y Seremoni. Hefyd llongyfarchwyd pawb arall o Wynedd a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod.

Yn ogystal, llongyfarchwyd Côr Ysgol Glanaethwy am fod mor llwyddiannus yn y gystadleuaeth "Last Choir Standing", hefyd i "Men Aloud" oedd yn fuddugol. Nododd y Cadeirydd ei bod yn braf gweld dau gôr o Gymru yn dod i'r brig yn y gystadleuaeth, a chyflëwyd diolch a gwerthfawrogiad i'w hyfforddwyr.

## 5 CWESTIYNAU

### Cwestiwn gan y Cynghorydd Dyfrig Jones

"Mae cynllun tair blynedd y Cyngor yn nodi bod angen gweithredu er mwyn datrys problem tai preifat yng Ngwynedd sydd yn sefyll yn wag. A yw'r Cyngor wedi edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio Empty Dwelling Managment Orders i gyflawni hyn?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Uwch Arweinydd Gofal**

"Diolch am y cwestiwn.

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn y broses o baratoi Strategaeth Tai Gwag sydd yn cynnwys ystyried y defnydd o "Empty Dwellings Management Orders" (EDMO's) fel un arf ymysg eraill i gael tai gwag nôl i ddefnydd.

Cyflwynwyd EDMO's drwy ddeddfwriaeth yn 2006 a rhoddir y pŵer i Gynghorau gymryd rheolaeth o dai preifat lle maent yn sefyll yn wag.

Golyga hyn gyfrifoldeb am eu gosod, casglu rhent, a thalu am unrhyw waith cynnal a chadw byddai ei angen. Awdurdodir yr EDMO drwy gais i dribiwnlys eiddo preswyl gan y Cyngor

Hyd yn hyn bach iawn yw'r defnydd o'r pŵer yma gyda dim ond un Cyngor yng Nghymru sef Cyngor Dinas Abertawe, wedi cwblhau un yn unig.

Rydym mewn cyswllt ag Abertawe i ddysgu o'u profiad"

**Cwestiwn Atodol**

"Diolch yn fawr am yr ateb.

A fyddai modd i chi gyfarwyddo'r swyddogion i wneud rhagor o waith ar y pwnc, gan edrych yn benodol ar ddefnyddio'r "Empty Dwelling Managment Orders" i leihau'r pwysau ar restrau tai cymdeithasol Gwynedd os gwelwch yn dda?"

**Ateb gan y Cynghorydd John Wyn Williams, Uwch Arweinydd Gofal**

"Mae tai gwag yn un o flaenoriaethau'r Cyngor yn y Cynllun Tair Blynedd. Mae dros 1000 o dai gwag yng Ngwynedd ar hyn o bryd, a thra bod rhesymau dilys i rai ohonynt fod yn wag, byddai modd dod â chanran ohonynt yn ôl i ddefnydd.

Dim ond un swyddog sy'n gweithio ym maes tai gwag ar hyn o bryd, ond bwriedir cynyddu'r nifer o dai ddaw yn ôl i ddefnydd i 20 yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun ac yna i 30 yn ystod yr ail flwyddyn.

Fel Uwch Arweinydd Portffolio, byddaf yn pwyso i roddi blaenoriaeth i'r maes er mwyn cael mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd"

**9 ADOLYGIAD AR Y CYD O WASANAETHAU CYMDEITHASOL**

Cyflwynwyd a dosbarthwyd yn y cyfarfod:-

(i) Adroddiad ar y Cydadolygiad a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, o Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd

(ii) Ymateb y Cyngor ar ffurf Rhaglen Wella (ddrafft), i Adolygiad ar y Cyd Gwasanaethau Cymdeithasol, a baratowyd gan y Bwrdd Rheoli Rhaglen.

Croesawyd Natalie Cooper, Prif Arolygydd Cynorthwyol Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Sue Roberts, Arweinydd y Tîm Adolygiad ar y Cyd Pete Graham o Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Val Connors a Huw Lloyd Jones o Swyddfa Archwilio Cymru i gyfarfod y Cyngor.

(a) Cafwyd cyflwyniad gan **Natalie Cooper, Prif Arolygydd Cynorthwyol Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**.

Diolchodd am y cyfle i gyflwyno'r Cydadolygiad i'r Cyngor.

Eglurodd mai adroddiad Cydadolygiad Gwynedd oedd yr adroddiad terfynol yn ail gylch o gydadolygiadau, eu bod yn y broses o ddatblygu trefniadau newydd, a bydd darganfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cwmpasu yn y trefniadau newydd.

Adroddodd bod sail statudol glir i gydadolygiadau, eu bod yn bartneriaeth uniongyrchol rhwng AGGCC a SAC, a bod hynny'n caniatáu ystod eang i'r adolygiad. Eglurodd ei fod yn archwilio'r ffordd y mae'r Cyngor cyfan yn cyflawni ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, yn rhoddi dyfarniadau a blaenoriaethau pendant ar gyfer gweithredu ac yn ceisio annog gwelliant.

Diben y Cydadolygiad oedd hysbysu'r cyhoedd pa mor dda yw'r gwasanaethau cymdeithasol lleol, helpu'r gwasanaethau i wella, helpu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a chynhalwyr, a sicrhau gwell gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

Gan hynny, ceisiai'r adroddiad ateb dau gwestiwn allweddol, sef pa mor dda yw'r gwasanaethau y mae trigolion Gwynedd yn eu derbyn, a pha mor dda yw sefyllfa'r Cyngor i gynnal a gwella gwasanaethau.

Pwysleisiodd bod yr adroddiad yn rhoddi barn glir ar sut mae'r Cyngor yn perfformio mewn meysydd allweddol o ddarparu gwasanaethau. Hefyd mae'n nodi'r prif faterion ar gyfer Gwynedd yng nghyd-destun gwerthoedd, blaenoriaethau ac amcanion lleol, ac yn nodi'r gydluniaeth rhwng bwriadau polisi, rheoli adnoddau a chanlyniadau ar gyfer y defnyddiwr a'r trethdalwr ac yn amlygu ymarfer da a nodi lle mae angen gwella.

(b) Cafwyd cyflwyniad gan **Sue Roberts, Arweinydd y Tîm Adolygiad ar y Cyd.**

Adroddodd bod dyfarniad cyffredinol y Cydadolygiad yn nodi bod y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir i drigolion Gwynedd yn anghyson, a bod y Cyngor mewn sefyllfa wael i gynnal a gwella gwasanaethau.

O safbwynt y negeseuon cyffredinol, esboniodd bod y rhan fwyaf o bobl yng Ngwynedd yn cael gofal sy'n ddiogel ac yn ofalgar, a bod pobl sy'n cael cymorth sy'n eu galluogi i fyw bywydau annibynnol.

Fodd bynnag, eglurwyd bod y Cyngor yn cydnabod nad oedd yn darparu gwasanaethau da yn gyson.

Nid oedd ystod gyson o wasanaethau sy'n helpu i gefnogi pobl yn y gymuned, ac sy'n pwysleisio annibyniaeth a dewis. Nodwyd bod rheolwyr gofal yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaethau a werthfawrogir gan nifer o ddefnyddwyr, ond roedd diffygion sylweddol. Ymhellach nodwyd bod ailstrwythuro wedi tynnu sylw rheolwyr oddi wrth wella gwasanaethau ac wedi arwain at lesgedd.

Nodwyd na weithredwyd ar lawer o'r materion a amlygwyd yn yr adolygiad blaenorol, a bod cyfleoedd i wella wedi eu colli. Pwysleisiwyd nad oedd y gwasanaethau wedi eu moderneiddio yn ôl y disgwyl.

Ymhellach nodwyd bod aelodau a staff allweddol wedi mynegi eu bwriad i gyflawni'r newidiadau. Fodd bynnag, os oedd y Cyngor am gyflawni'r newidiadau angenrheidiol, eglurodd bod angen iddo lywio datblygiadau strategol a gweithredu cynlluniau; dechrau darparu gwelliant cyson mewn partneriaeth â rhanddeilaid gan ddefnyddio staff rheng flaen, defnyddwyr a gofalwyr yn ogystal â sicrhau gwelliant yn amrywiaeth y gwasanaethau sy'n cefnogi a hyrwyddo annibyniaeth.

Mewn perthynas â pha mor dda oedd y gwasanaethau, manylodd ar negeseuon allweddol gan dynnu sylw at gryfderau'r gwasanaethau. Fodd bynnag rhestrwyd amrywiaeth o feysydd i'w datblygu a materion oedd angen i'r Cyngor fynd i afael â hwy.

O safbwynt pa mor dda oedd sefyllfa'r Cyngor i gynnal a gwella gwasanaethau, manylodd ar gryfderau'r Cyngor, ond eglurodd bod llawer o faterion i'w datblygu ac ymhelaethodd ar y materion hynny.

Yna manylodd ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, er mwyn sicrhau gwelliant pellach, sef:-

- Troi ymrwymiad gwleidyddol cynyddol a'r fframweithiau corfforaethol newydd yn ganlyniadau effeithiol;
- Datblygu arweinyddiaeth effeithiol o fewn gwasanaethau cymdeithasol a gwella trefniadau rheoli newid ar draws pob maes gwasanaeth;
- Sicrhau y diwellir anghenion plant a theuluoedd sydd mewn angen sy'n derbyn gofal gan y Cyngor;
- Gosod cyfeiriad clir ar gyfer gwella gwasanaethau oedolion a phwysleisio annibyniaeth dewis;
- Sicrhau y gwneir defnydd effeithiol o adnoddau drwy ddarparu neu brynu gwasanaethau s y'n ymatebol i anghenion ac sy'n cynnig gwerth am arian
- Datblygu trefniadau digonol i sicrhau trefniadau rheoli perfformiad effeithiol

Yn olaf, manylodd ar gamau dilynol y broses. Eglurodd bod y Cyngor yn y broses o ddarparu Cynllun Gweithredu ynglŷn â sut y byddant yn cyflawni'r gwelliannau angenrheidiol. Yna bydd cynrychiolwyr AGGCC A SAC yn cyfarfod gyda swyddogion y Cyngor i drafod y Cynllun Gweithredu a threfniadau dilynol. Wedyn bydd y gwaith yn dechrau o'r ddwy ochr gyda phwyslais ar fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu. Yn ddibynnol ar gynnydd boddhaol caiff y Cynllun ei gymeradwyo ymhen blwyddyn.

Nododd bod yr adroddiad llawn sy'n manylu ar y gwaith a'r darganfyddiadau ar safle we'r Cydadolygiad, ac anogwyd yr aelodau i'w ddarllen.

(c) Diolchodd y **Prif Weithredwr** i Natalie Cooper a Sue Roberts am eu cyflwyniadau.

Mynegodd siom ynglŷn â dyfarniad cyffredinol y Cydadolygiad.

Eglurodd nad oedd yn cytuno gyda phob manylyn yn yr adroddiad, ond pwysleisiodd ei fod yn cytuno gyda mwyafrif llethol y cynnwys, a bod angen derbyn y feirniadaeth a'r negeuon oedd yn yr adroddiad, a symud ymlaen yn egniol i newid a gwella'r gwasanaethau ar gyfer trigolion Gwynedd.

Cyfeiriodd at hunan arfarniad o'r sefyllfa cyn y Cydadolygiad, a bod gwendidau ar draws nifer o feysydd wedi eu hadnabod bryd hynny. Fodd bynnag, roedd y Cydadolygiad yn fanwl a thrylwyr, ac roedd wedi amlygu dyfnder ac ehangder y gwendidau, a diolchodd i'r Arolygwyr am eu gwaith i adnabod y problemau.

Eglurodd nad problem gwasanaethau cymdeithasol yn unig mohono, a bod yr adolygiad yn cadarnhau ac yn atgyfnerthu rhai o'r newidiadau oedd angen i'r Cyngor ei hun ei gyflawni ar draws y meysydd, er mwyn moderneiddio yn gynt. Cyfeiriodd at y ffaith bod yr Adolygiad wedi cael dylanwad ar y Cynllun Tair Blynedd wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Pwysleisiodd bod angen wynebu'r her yn obeithiol a hyderus, a chyfeiriodd at y cynnydd ardderchog a wnaed yn ystod y deunaw mis diwethaf.

Hefyd cyfeiriodd at gynnydd cyffredinol ym mherfformiad y Cyngor. Eglurodd bod dangosyddion perfformiad cenedlaethol 2006/07 a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos bod Gwynedd â 30% o'r holl ddangosyddion yn y chwartel uchaf yng Nghymru, a bod llai na 25% yn y chwartel isaf. Roedd hyn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol, ac yn dangos bod y Cyngor yn gallu gwella.

Cyfeiriodd hefyd at dystiolaeth ddiweddar oedd yn dangos gwelliant ym maes gwasanaethau cymdeithasol, gan nodi bod adolygiad annibynnol diweddar o'r gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn dangos gwelliant sylweddol iawn ers adolygiad dair blynedd ynghynt.

(ch) Cyflwynwyd Rhaglen Wella drafft y Cyngor, mewn ymateb i'r materion a amlygwyd yn y Cydadolygiad, a manylwyd ar y rhaglen gan y **Cyfarwyddwr Strategol Gofal.**

Eglurodd bod y gwaith gwella wedi dechrau yng Ngorffennaf 2007, yn dilyn yr hunan asesiad. Fodd bynnag roedd yr Adolygwyr o'r farn bod angen i'r Cyngor ddangos bod newid yn digwydd, bod modd cynnal y newidiadau, a hefyd bod angen cyflymu'r newid.

Cyfeiriodd at y pum thema a berthyn i'r Rhaglen Wella, sef, Gweledigaeth, Diwylliant ac Arweinyddiaeth; Strategaeth Comisiynu a Datblygu Gwasanaeth; Ymarfer;. Adnoddau a Systemau Gwybodaeth a Pherfformiad.

Rhoddodd flas o'r rhaglen, ymhelaethodd ar yr amrywiol benawdau oedd angen sylw o dan y themâu unigol, a manylodd ar faterion penodol oedd angen sylw a datblygiadau a chynlluniau oedd eisoes ar y gwell.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr ei fod yn obeithiol y bydd y Cyngor cyfan yn rhannu'r weledigaeth, ac y bydd y sefyllfa wedi newid yn llwyr ymhen tai blynedd, gyda Gwynedd yn gwasanaethu'r bobl yn dda a rhagolygon rhagorol i'r dyfodol.

(d) Cafwyd cyflwyniad ar ffurf cyfres o gwestiynau gan y **Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol**, a nodwyd y prif sylwadau canlynol:-

Eglurodd y cynhaliwyd y Cydadolygiad rhwng Gaeaf 2006 a Haf 2007, a bod y darlun cryn dipyn yn wahanol erbyn hyn, oherwydd bod llawer wedi ei gyflawni ers Gorffennaf 2007. Fod bynnag roedd yn cytuno bod llawer iawn i'w newid a'i gyflawni eto.

Pwysleisiodd bod yr adolygiad o bwys mawr i reolwr a staff y gwasanaeth, nid oeddynt wedi gweld yr adolygiad hyd yma, ac eglurodd y byddant oll yn teimlo'n siomedig iawn.

Eglurodd bod rhaid newid, a bod angen i bawb chwarae eu rhan. Pwysleisiodd bod y Rhaglen Wella yn faith a heriol, a bod angen ymroddiad, dyfalbarhad a chefnogaeth y Cyngor cyfan er mwyn sicrhau llwyddiant.

Nododd y Cyfarwyddwr ei bod yn falch iawn o sylwadau cadarnhaol ynglŷn ag ymroddiad staff ac ymarfer saff. Fodd bynnag manylodd ar oblygiadau ymarfer anghyson a phwysleisiodd nad oedd gwasanaeth anghyson yn ddigon da.

Cadarnhaodd bod llawer o waith da wedi mynd yn ei flaen ym maes oedolion a phlant, a chyfeiriodd at enghreifftiau penodol.

Nododd bod y Rhaglen Wella'n gynllun o newid sylweddol, ac er bod pryderon a pheryglon yn wynebu'r Cyngor, pwysleisiodd bod hefyd cyfleoedd ar gyfer newid a symud o wasanaethau anghyson i wasanaethau cyson dda.

(dd) Gwahoddwyd aelodau i holi swyddogion AGGCC a SAC, ac yn ystod y trafodion dilynol, nodwyd y sylwadau canlynol:-

- Mynegodd aelod anfodlonrwydd ynglŷn â'r ffaith fod yr adroddiad wedi ei ddosbarthu i'r aelodau ar ddechrau'r cyfarfod, yn hytrach nag wedi ei anfon atynt ynghynt - er mwyn caniatáu amser iddynt ddarllen yr adroddiad a'u galluogi i ofyn cwestiynau ystyrlon a phwrpasol yng nghyfarfod y Cyngor.

  Eglurodd yr Arolygwyr eu bod wedi dilyn y drefn arferol ar gyfer cyflwyno cydadolygiadau, a bod embargo ar yr adroddiad er mwyn rheoli'r broses. Roedd yn gobeithio bod yr aelodau wedi cael blas o gynnwys yr adroddiad trwy'r cyflwyniadau, a phwysleisiodd fod swyddogion AGGCC a SAC yn barod i ymhelaethu ar unrhyw agwedd o'r adroddiad.

- Cyfeiriodd aelod at ei hanfodlonrwydd ynglŷn â'r feirniadaeth bod gormod o gartrefi henoed gan Wynedd, oherwydd bod aelodau'n araf i foderneiddio. Pwysleisiodd iddi ofyn droeon am gael rhesymoli darpariaethau, a chyfeirid yn benodol at y sefyllfa ym Mlaenau Ffestiniog.

- Gresynodd aelod am nad oedd statws teilwng i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd, a nododd bod angen newid hierarchaeth y Cyngor.

- Mynegodd aelod newydd gywilydd mawr ynglŷn â'r sefyllfa, ac roedd yn feirniadol o'r Cyngor blaenorol am adael i'r sefyllfa ddirywio i'r fath raddau.

- Cyfeiriodd aelod arall at gyfarfod briffio diweddar a drefnwyd ar gyfer aelodau'r tri phwyllgor craffu fyddai'n craffu'r adroddiad. Nododd mai ychydig iawn o aelodau oedd wedi mynychu'r cyfarfod, a nodwyd bod angen gwell presenoldeb yn y gweithgorau a'r pwyllgorau craffu.

- Mynegwyd cydymdeimlad mawr â staff ymroddgar a chydwybodol y gwasanaethau cymdeithasol, a phwysleisiwyd bod rhaid sicrhau pob cymorth a chefnogaeth iddynt wrth gyflawni'r newidiadau.

- Nododd aelod bod ei wraig ag anabledd dwys, a phwysleisiodd ei bod o'r farn ei bod yn derbyn gofal ardderchog gan y Cyngor.

  Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Arolygwyr am yr adroddiad arwyddocaol, ac am y cyflwyniadau didwyll.

  Eglurodd ei fod yn croesawu bod y gwasanaethau'n gwbl ddiogel a bod staff y gwasanaethau'n gwbl ymroddedig. Fodd bynnag roedd yn cytuno bod rhaid moderneiddio'r dull o gyflwyno gwasanaethau, ac erfyniodd am undod wrth ymroi i'r gwaith o gyflawni'r newidiadau er mwyn sicrhau gwasanaethau gwell.

  Tra bod yr aelodau'n siomedig iawn gyda chynnwys yr adroddiad, roeddynt yn croesawu'r gwelliannau a'r cynnydd a welwyd yn ystod y deunaw mis diwethaf, ac roeddynt yn awyddus i dderbyn yr adroddiad a symud ymlaen i wella gwasanaethau ar gyfer trigolion Gwynedd.

(iii) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Polisi a Pherfformiad ynglŷn â threfniadau craffu'r Cydadolygiad.

Eglurwyd bod trefniadau craffu Rhaglen Wella'r Adolygiad ar y Cyd yn sicrhau craffu pwrpasol ar draws y Cyngor, a chraffu penodol gan y tri phwyllgor craffu perthnasol sef Gofal, Plant a Phobl Ifanc ac Adnoddau a Chorfforaethol. Darparwyd gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r trefniadau arfaethedig.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Derbyn adroddiad y Cydadolygiad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Gwynedd.**

**(ii) Cymeradwyo Rhaglen Wella (ddrafft) y Cyngor i Adolygiad ar y Cyd Gwasanaethau Cymdeithasol,**

**(iii) Cymeradwyo trefniadau craffu'r Cydadolygiad**

## 10 AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD Y SIR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyhoeddi rhybuddion statudol i gau ysgolion Rhydyclafdy a Chroesor ac i gynnal cyfnod ymgynghori statudol ar y bwriad i gau Ysgol Llawrybetws, oherwydd bod niferoedd y plant yn yr ysgolion wedi disgyn i lefelau sy'n achosi pryder.

Darparwyd manylion ynglŷn â'r cyfarfodydd ymgynghori oedd wedi mynd rhagddynt. Eglurwyd bod rhieni, plant, staff a llywodraethwyr wedi cael cyfle i fynychu'r cyfarfodydd statudol, gydag aelodau etholedig, oedd yn llywodraethwyr yr ysgolion perthnasol yn cael cyfle i fynychu a chyfrannu i'r broses.

Mewn perthynas â phryderon ynglŷn ag amserlen ymgynghori Ysgol Croesor, eglurwyd bod yr awdurdod wedi ymestyn y cyfnod ymgynghori i 10 wythnos er mwyn sicrhau na fyddai dyddiad olaf yr ymgynghori yn ystod gwyliau ysgol.

Adroddwyd y bydd arbedion a ddeilliai o gyllidebau'r ysgolion eleni yn mynd tuag at gefnogi ysgolion lle mae niferoedd mawr mewn dosbarthiadau. Pwysleisiodd Arweinydd Portffolio Ysgolion ei bwriad i geisio sicrhau y bydd unrhyw arbedion pellach am eleni ac i'r dyfodol yn mynd i bwrpasau addysgol ar lawr y dosbarth.

Cyfeiriodd yr Arweinydd Portffolio at dynged Ysgol Llawrybetws a'r pryder yn deillio o leihad yn nifer y disgyblion a fynychai'r ysgol y tymor hwn. Cyfeiriodd at dristwch yr achlysur pan fu rhaid ymateb i sefyllfa a ddatgymalodd dros nos a bu rhaid cau'r ysgol yn ddisymwth. Pwysleisiodd bod rhaid sicrhau bod cynllun ad-drefnu mewn lle fel y gellid bod yn fwy rhagweithiol pe cyfyd sefyllfa gyffelyb eto.

Diolchodd aelod o'r Gweithgor Gwella i ysgolion Rhydyclafdy, Croesor a Llawrybetws am eu cyfraniad amhrisiadwy i'w cymunedau, ac am roddi profiadau gwych i genedlaethau o blant. Ategodd yr angen i gynllunio dyfodol ysgolion gwledig a dyfodol cefn gwlad yn ei gyfanrwydd.

Ar ran cyn llywodraethwyr Ysgol Rhydyclafdy, adroddodd aelod bod yr ansicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ysgol wedi peri i rieni anfon eu plant i ysgolion cyfagos, a dylid osgoi sefyllfa gyffelyb yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

**(i) cyhoeddi rhybuddion statudol i gau Ysgol Rhydyclafdy erbyn 3 Ebrill 2009.**

**(ii) cyhoeddi rhybuddion statudol i gau Ysgol Croesor erbyn 31 Awst 2009.**

**(iii) cynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad i gau Ysgol Llawrybetws erbyn 31 Awst 2009 neu 31 Rhagfyr 2009.**

## 11 DOGFEN GYNNIG FFURFIOL I DENANTIAID – PROSIECT PLEIDLAIS STOC TAI

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Prosiect Pleidlais Stoc Tai i geisio cymeradwyaeth y ddogfen Gynnig Ffurfiol i Denantiaid, ac i gytuno trefniadau yn dilyn derbyn sylwadau'r Cynulliad ar y Ddogfen.

(a) Adroddwyd bod y Cyngor wedi penderfynu ers beth amser i ymgynghori'n ffurfiol gyda thenantiaid ynglŷn â dyfodol y Stoc Tai Cyngor, yng ngoleuni'r angen i sicrhau fod y Stoc Tai yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru. Roedd angen cyflwyno Dogfen Gynnig Ffurfiol i'w hystyried gan yr holl denantiaid cyn iddynt bleidleisio'n ffurfiol ar ddyfodol eu tai.

(b) Gwahoddwyd holl aelodau'r Cyngor i gyfarfod o Bwyllgor Craffu Gofal i drafod yr Ddogfen gynnig. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r ddogfen a phenderfynodd y pwyllgor fel a ganlyn:-

*"Argymell cymeradwyo'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol i sylw Bwrdd y Cyngor er penderfyniad gyda'r newidiadau canlynol :*

*i) Bod y frawddeg 'Nid yw'r arian hwn ar gael ond trwy drosglwyddo' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â 'Benthyca'.*

*ii) Bod y frawddeg 'Ni fyddai'r Trysorlys yn gwneud hyn pe byddai'r cartrefi'n parhau gyda'r Cyngor - dim ond os bydd trosglwyddo'n digwydd y gwneir hyn,' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â Dyled Tai.*

*iii) Bod penawdau clir yn cael eu gosod ar dablau'n ymdrin â'r denantiaeth sicr, sy'n bodoli ar hyn o bryd, a thenantiaeth sicredig fyddai'n cael ei chyflwyno pe byddai'r tenantiaid yn cefnogi'r trosglwyddo'r stoc tai.*

*iv) Bod Cynghorwyr yn ogystal â swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth lawn i denantiaid y Cyngor ynglŷn â'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol trwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'r stadau.*

*v) Cadarnhau bod y Bwrdd a fyddai'n rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd yn cynnwys 12 aelod – 4 ohonynt yn denantiaid, heb fod o unrhyw ardal arbennig, 4 wedi eu henwebu gan y Cyngor a 4 yn aelodau annibynnol.*

*vi) Bod tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei derbyn i sicrhau na fyddai newidiadau o safbwynt Treth ar Werth pe byddai rheolau elusennol yn newid.*

*vii) Amlygu bod modd i'r tenantiaid, pe byddent yn dewis trosglwyddo'r stoc tai, droi at y Cyngor pe byddai angen er sicrhau fod gwasanaeth o safon yn cael ei roi gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd.*

*viii) Bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n gyson i'r Pwyllgor Craffu Gofal, fel rhan o weithdrefn y Cyngor, fel y gellid monitro perfformiad Cartrefi Cymunedol Gwynedd, pe byddai'r stoc tai yn cael ei drosglwyddo.*

*ix) Bod y Ddogfen Gynnig Ffurfiol yn cynnwys datganiad a luniwyd gan Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd er cyflwyno gwybodaeth bellach i'r tenantiaid a'u hannog i ddefnyddio eu pleidlais.*

*x) Bod trefn yr wyddor Gymraeg yn cael ei dilyn"*

(c) Rhoddwyd sylw trylwyr i'r Ddogfen ac i argymhellion y pwyllgor craffu gan Fwrdd y Cyngor, a phenderfynodd fel a ganlyn:-

*"1. Cyflwyno'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol i'w chymeradwyo gan y Cyngor llawn ar 16 Hydref 2008 yn ddarostyngedig i gynnwys manylion diwygiedig perthnasol yn unol â 2 isod.*

*2. Mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Gofal:-*
*(a) O ran yr argymhellion yn ymwneud â diwygio'r Ddogfen Gynnig, sef*

*i) Bod y frawddeg 'Nid yw'r arian hwn ar gael ond trwy drosglwyddo' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â 'Benthyca';(Rhan A, tudalen 10)*

*ii) Bod y frawddeg 'Ni fyddai'r Trysorlys yn gwneud hyn pe byddai'r cartrefi'n parhau gyda'r Cyngor - dim ond os bydd trosglwyddo'n digwydd y gwneir hyn,' yn cael ei diddymu o'r cymal yn ymdrin â Dyled Tai; (Rhan A, tudalen 10)*

*penderfynwyd glynu wrth y gwreiddiol oherwydd bod y Ddogfen Gynnig yn ddogfen gyfreithiol, a bod y manylion sy'n ffeithiol gywir yn atgyfnerthu'r ddogfen.*

*(b) Derbyn yr argymhelliad isod*

*iii) Bod penawdau clir yn cael eu gosod ar dablau'n ymdrin â'r denantiaeth sicr, sy'n bodoli ar hyn o bryd, a thenantiaeth sicredig fyddai'n cael ei chyflwyno pe byddai'r tenantiaid yn cefnogi'r trosglwyddo'r stoc tai (Rhan G, tudalen 2)*

*penderfynwyd ychwanegu'r geiriau o dan deitlau'r colofnau perthnasol gan bwysleisio bod angen sicrhau bod iaith y ddogfen yn syml a bod y negeseuon yn y ddogfen yn cael eu cyflwyno i'r tenantiaid mewn modd oedd yn hawdd eu deall;*

*(c) Gohirio penderfyniad ynglŷn ag argymhelliad (iv) "bod cynghorwyr yn ogystal â swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth lawn i denantiaid y Cyngor ynglŷn â'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol trwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'r stadau", ac ystyried y mater ymhellach yn dilyn derbyn arweiniad y Swyddog Monitro ar fore'r Cyngor;*

*(ch) Ynglŷn ag argymhelliad (v) ac argymhelliad Pwyllgor Ardal Dwyfor am gynrychiolaeth ddaearyddol, dylai Bwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd gynnwys 12 aelod - 4 wedi eu henwebu gan y Cyngor, 4 yn aelodau annibynnol a 4 ohonynt yn denantiaid, <u>heb fod o unrhyw ardal arbennig</u>, oherwydd problemau cyfreithiol tebygol yn sgil methu â sicrhau aelodaeth o bob ardal. Argymell y dylid cynnwys y geriad canlynol yn y Ddogfen*

*Gynnig "Bydd aelodau'r Bwrdd yn gynrychioliadol o'r ardaloedd lle bo hynny'n ymarferol bosibl, yn unol â pholisi i'w gymeradwyo gan Fwrdd y Gymdeithas maes o law";*

*(d) Derbyn argymhelliad (vi) bod tystiolaeth ysgrifenedig yn cael ei dderbyn i sicrhau na fyddai newidiadau o safbwynt Treth ar Werth pe byddai rheolau elusennol yn newid;*

*(dd) Peidio diwygio'r ddogfen mewn perthynas ag argymhelliad (vii) i "amlygu bod modd i'r tenantiaid, pe byddent yn dewis trosglwyddo'r stoc tai, droi at y Cyngor pe byddai angen er sicrhau fod gwasanaeth o safon yn cael ei roi gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd", oherwydd mai'r Cynulliad fyddai'n gyfrifol am reoleiddio'r gymdeithas newydd. Fodd bynnag bydd y berthynas arferol rhwng aelod ac etholwyr yn parhau o dan y drefn newydd, ond mewn perthynas â swyddogaeth cynghorwyr Gwynedd ar ôl trosglwyddo dylid addasu geiriau "yn union fel ag y maent ar hyn o bryd" sy'n Rhan A (tudalen 12) o'r Ddogfen Gynnig i fod yn fwy cywir ac eglur.*

*(e) O ran argymhelliad (viii) "bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n gyson i'r Pwyllgor Craffu Gofal, fel rhan o weithdrefn y Cyngor, fel y gellid monitro perfformiad Cartrefi Cymunedol Gwynedd pe byddai'r stoc tai'n cael ei drosglwyddo", nodi bod gwaith craffu pwysig i'w gyflawni gan y pwyllgor, fodd bynnag mater i'r pwyllgor craffu ei hun oedd penderfynu ar faterion i'w craffu - o fewn y cyfyngiadau arferol;*

*(f) Cymeradwyo argymhelliad (ix) "Bod y Ddogfen Gynnig Ffurfiol yn cynnwys datganiad a luniwyd gan Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd er cyflwyno gwybodaeth bellach i'r tenantiaid a'u hannog i ddefnyddio eu pleidlais"*

*3. Cymeradwyo y dylai adrannau'r ddogfen ddilyn trefn y wyddor Gymraeg yn y 2 iaith".*

(ch) Adroddwyd bod y pwyllgor craffu a'r Bwrdd yn gytûn ynglŷn â llawer o'r materion. Fodd bynnag roedd anghytundeb ynglŷn â diwygio'r ddogfen, gyda'r Bwrdd yn amharod i'w diwygio oherwydd ei bod yn ddogfen gyfreithiol, a bod y manylion yn ffeithiol gywir, ac yn atgyfnerthu'r ddogfen.

(d) Mewn perthynas ag ymholiad ynglŷn ag argymhelliad y pwyllgor craffu "*bod cynghorwyr yn ogystal â swyddogion yn cyflwyno gwybodaeth lawn i denantiaid y cyngor ynglŷn â'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol trwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac ymweld â'r stadau*", cyfeiriwyd at nodyn arweiniol y Swyddog Monitro a dosbarthwyd i'r aelodau ar fore'r Cyngor (gweler pwynt 3 yn y cofnodion), ac ymhelaethodd y Swyddog Monitro ar y sefyllfa o ran datgan barn gyhoeddus.

(dd) Adroddwyd bod Pwyllgor Craffu Gofal a'r Bwrdd wedi argymell y dylai'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol gynnwys datganiad a luniwyd gan Gomisiwn Tenantiaid Gwynedd. Fodd bynnag roedd nifer o'r aelodau o'r farn nad oedd yn briodol cynnwys y datganiad gyda'r Ddogfen gynnig oherwydd bod cyfrifoldeb ar y Cyngor i gyflwyno gwybodaeth gytbwys, ac roedd y datganiad yn mynegi barn glir. Fodd bynnag syrthiodd gwelliant i beidio cynnwys y datganiad gyda'r Ddogfen.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo argymhellion y Bwrdd**

**(ii) Cymeradwyo'r Ddogfen Gynnig Ffurfiol i Denantiaid**

**(iii) Awdurdodi'r Bwrdd i gymeradwyo unrhyw newidiadau pellach i'r Ddogfen Gynnig yn dilyn derbyn sylwadau'r Cynulliad ar y Ddogfen.**

Ni bleidleisiodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams ar y penderfyniadau uchod.

**12 CYNLLUN GWELLA 2008**

Cyflwynwyd Cynllun Gwella 2008 (Rhan 2 – Adrodd ar gyrhaeddiad)

Adroddwyd:-

(i) bod angen i'r Cyngor gyhoeddi a mabwysiadu Cynllun Gwella statudol yn flynyddol, a bod strwythur y Cynllun Gwella'n wahanol i Gynlluniau Gwella'r gorffennol, gan ei fod wedi ei gyhoeddi mewn dwy ran;

(ii) bod y rhan gyntaf sef Cynllun Tair Blynedd Gwynedd 2008-2011, sy'n amlinellu cynlluniau strategol y Cyngor am y tair blynedd i ddod, wedi ei gyhoeddi eisoes.

(i) bod yr ail ran yn adrodd ar gyrhaeddiad 2007/08 yn erbyn cynlluniau a dangosyddion a gyhoeddwyd yng Nghynllun Gwella 2007.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Mabwysiadu Cynllun Gwella Gwynedd 2008 (Rhan 2 – Adrodd ar gyrhaeddiad 2007/08)**

**(ii) Dirprwyo hawl i'r Uned Rheoli Perfformiad a |Phrosiectau Corfforaethol wneud man newidiadau golygyddol i gynnwys y Cynllun**

**13 RHYBUDDION O GYNNIG**

Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Gwilym Euros Roberts o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

***"Oherwydd toriadau mewn cyllideb gan y Swyddfa Gartref mae'r arwyddion i gyd yn dangos bydd toriadau i wasanaethau'r Heddlu yng Ngwynedd o fis Ebrill nesaf.***

***Mae'r Cyngor hwn felly yn galw am gyfarfod brys gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chadeirydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru er mwyn darganfod yn union beth fydd hynny yn ei olygu yn nhermau y nifer o heddweision a'r gallu i blismona yng Ngwynedd ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig oddi fewn i'r Sir".***

Eglurodd y cynigydd bod pryder cyffredinol ynglŷn â thoriadau i wasanaethau'r Heddlu yng Ngwynedd, a nododd bod presept yr Heddlu wedi codi'n aruthrol yng Ngwynedd mewn blynyddoedd diweddar, o gymharu ag ardaloedd gwledig eraill.

Adroddodd un o gynrychiolwyr y Cyngor ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru ei bod yn gynamserol galw am gyfarfod brys, oherwydd nad oedd penderfyniad ynglŷn â lefel y presept ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd gwelliant ***yn galw am gyfarfod cyn gynted a bod y wybodaeth ar gael***, a gyda chytundeb y cynigydd a'r eilydd, pleidleisiwyd ar y cynnig diwygiedig canlynol:--

***"Oherwydd toriadau mewn cyllideb gan y Swyddfa Gartref mae'r arwyddion i gyd yn dangos bydd toriadau i wasanaethau'r Heddlu yng Ngwynedd o fis Ebrill nesaf.***

***Mae'r Cyngor hwn felly yn galw am gyfarfod cyn gynted a bod y wybodaeth ar gael gyda Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chadeirydd Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru er mwyn darganfod yn union beth fydd hynny yn ei olygu yn nhermau y nifer o heddweision a'r gallu i blismona yng Ngwynedd ac yn enwedig mewn ardaloedd gwledig oddi fewn i'r Sir".***

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig diwygiedig ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Gofal i weithredu ar y cynnig.**

**14 ADRODD YN ÔL AR RYBUDDION O GYNNIG**

Adroddwyd, er gwybodaeth

(a) bod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin, 2008, wedi mabwysiadu rhybudd o gynnig yn gwrthwynebu newid arfaethedig yn narpariaeth addysg arbennig yn y sir, a bod y cynnig wedi ei gyfeirio i Fwrdd y Cyngor.

(b) ystyriwyd y mater gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf 2008 a phenderfynwyd fel a ganlyn:-

*(i) Cau unedau Anghenion Addysg Arbennig Ysgol Glan Cegin a Dolgellau yn unol ag adroddiad y Pennaeth;*

*(ii) Parhau am y tro gyda'r trefniadau presennol eraill, ac agor y 12 uned anghenion addysg arbennig arall am bum bore'r wythnos;*

*(iii) Ail sefydlu'r Gweithgor a fu'n edrych ar y mater gyda thri aelod etholedig o Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn gwasanaethu arno;*

*(iv) Bod y Gweithgor yn ystyried ymestyn ei aelodaeth fel bod modd cynnwys barn gyflawn defnyddwyr, rhieni, a chynrychiolwyr ychwanegol o blith athrawon yr unedau a phenaethiaid;*

*(v) Bod y Gweithgor yn ystyried ystod eang holl faes Anghenion Addysg Arbennig y sir, gan roddi sylw manwl i egwyddorion pwysig fel integreiddio, cynhwysiad, cyrhaeddiad, ansawdd a gwerth am arian;*

*(vi) Bod y gweithgor yn ymgynghori'n eang ar opsiynau posibl;*

*(vii) Bod y Gwasanaeth Ysgolion yn glynu wrth ei darged arbedion ac yn cyflawni'r arbedion ariannol perthnasol o rywle arall yn 2008/09.*

Yn ogystal penderfynwyd *bod y Pennaeth Ysgolion yn ysgrifennu at y rhieni i ymddiheuro am y gofid a achoswyd iddynt oherwydd y cynllun*

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**Dechreuodd y cyfarfod am 1:00 p.m. a daeth i ben am 3:45 p.m.**